# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, V.P. Driscoll, E. Goodjohn, W.A. Hennessy a N.B. Marshallsea

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan Cynghorwyr L. Burnett, R. Fisher, H.C. Hamilton, R. Sivagnanam, S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2025 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CAIS AM GYMERADWYAETH FEL PROFWR MESURYDD CERBYD HACNI GAN DHM TAXI METERS (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Tîm Trwyddedu, a ddywedodd fod yr adroddiad ar gyfer ystyried cais i gymeradwyo profwr mesurydd cymeradwy ychwanegol a fyddai'n rhoi mwy o ddewis o brofwyr mesuryddion cymeradwy i berchnogion Cerbydau Hacni ym Mro Morgannwg.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais gan DHM Taxi Meters.

Rheswm dros y penderfyniad

Rhoi mwy o ddewis o brofwyr mesuryddion cymeradwy i berchnogion Cerbydau Hacni ym Mro Morgannwg.